

# Cynnwys pobl â dementia mewn recriwtio a dethol

## Negeseuon allweddol

- Mae llawer o sefydliadau'n recriwtio staff neu sefydliadau allanol i weithio gyda phobl â dementia
- Fel cwsmeriaid y gwasanaethau hyn, mae pobl â dementia mewn sefyllfa unigryw i asesu a oes gan ymgeisydd y rhinweddau priodol i weithio gyda phobl â dementia
- Mae sawl ffordd o gynnwys pobl â dementia mewn prosesau recriwtio
- Mae gan bobl â dementia yr hawl i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau

## Pam cynnwys pobl â dementia wrth recriwtio a dethol?

Mae llawer o wahanol unigolion a sefydliadau'n cael eu recriwtio i weithio gyda phobl â dementia. Maen nhw'n amrywio o staff cymorth parhaol i sefydliadau sy'n cael eu recriwtio trwy brosesau tendr cystadleuol ar gyfer gwaith penodol.

Mae pobl â dementia mewn sefyllfa unigryw i rannu y sgiliau a'r rhinweddau a fydd yn gweithio'n dda iddynt. Mae hefyd yn bosibl i'r sefydliad sy'n recriwtio ddysgu mwy am y gwasanaethau y mae'n eu darparu i bobl â dementia trwy gynnwys pobl â dementia. Er enghraifft, gallai pobl fyfyrion ar yr agweddau ar swydd-ddisgrifiad sy'n arbennig o bwysig iddynt, a allai roi gwybodaeth werthfawr am sut caiff y rôl ei chyflawni a phwysigrwydd tasgau allweddol.

Gall cynnwys pobl â dementia daflu goleuni ar sut mae ymgeiswyr yn ymateb i bobl â dementia mewn sefyllfaoedd go iawn.

Mae gan bobl â dementia yr hawl i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

“

Fel ddefnyddwyr gwasanaeth/cleientiaid y ganolfan Forget Me Not, roedden eisiau ymwneud â phob rhan o'r broses i ddod o hyd i'r unigolyn iawn. Ni yw'r rhai y bydd y person yn gweithio gyda nhw. Grŵp Forget Me Not, Swindon

”

## Pryd i gynnwys pobl â dementia yn y broses recriwtio a dethol

Gall pobl â dementia gymryd rhan ym mhob cam o'r broses recriwtio.

Ystyriwch:

- Gofyn i bobl y rhinweddau maen nhw'n credu y bydd eu hangen ar aelodau staff. Gallai hyn gynnwys diddordebau y tu allan i'r gwaith a nodweddion personol
- Gweithio gyda phobl â dementia i ddatblygu meini prawf ar gyfer llunio rhestr fer sy'n adlewyrchu eu profiadau ac sy'n berthnasol i'w profiadau
- Gweithio gyda phobl â dementia i lunio cwestiynau cyfweiliad
- Gweithio gyda phobl â dementia i lunio a/neu ddarparu gweithgareddau i asesu ymgeiswyr
- Cynorthwyo pobl â dementia i fod yn aelodau o banel cyfweld.

## Pwy i'w gynnwys yn y broses

Yn ddelfrydol, dylid cynnwys y bobl â dementia a fydd yn derbyn gwasanaethau gan yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n cael ei recriwtio.

Mae'n bosibl y bydd rhai pobl â dementia wedi cael profiad o recriwtio'n broffesiynol neu mewn ffyrdd eraill. Efallai fydd eraill ddim wedi cael profiad ond byddant yn fodlon cymryd rhan. Bydd angen mwy o gymorth ar rai pobl nag eraill i gymryd rhan.

Mae'n bwysig bod cyfranogiad yn cael ei gyfateb i alluoedd a diddordebau'r unigolyn.

Os nad oes gan unrhyw un â dementia yn y sefydliad y gallu i gymeryd rhan yn y broses neu yn barod i wneud hynny, ystyriwch ofyn i rywun o'r tu allan, fel eich grŵp DEEP cyfagos.

## Sut i gynnwys pobl yn y broses

### Gweithio ar ddogfennau recriwtio

Mae dogfennau recriwtio a thendr ffurfiol yn aml yn hir, yn gymhleth ac yn llawn jargon cyfreithiol a rheoli. Bydd llawer o'r cynnwys yn sefydlog ac yn dilyn prosesau a osodwyd gan y sefydliad sy'n recriwtio. Gall newid hyn fod yn broses hir ac araf. Fodd bynnag, mae'r dogfennau hyn fel arfer yn caniatáu mewnbwn penodol ar gyfer y swydd benodol.

Yn yr achos hwn, ystyriwch weithio gyda grŵp bach o bobl â dementia ar gwestiynau i lywio rhannau penodol o'r ddogfen. Ystyriwch:

- Gofyn i bobl ba rinweddau maen nhw'n credu y bydd eu hangen ar aelodau staff. Gallai hyn gynnwys diddordebau y tu allan i'r gwaith a nodweddion personol
- Holi ynghylch agweddau penodol ar y swydd-ddisgrifiad. Beth yw rhannau pwysicaf y swydd i rywun â dementia? Pa rannau sy'n llai o blaenoriaeth?

### Llunio rhestr fer

Mae meini prawf dethol yn deillio o fanyleb yr unigolyn. Os yw pobl â dementia wedi cyfrannu at osod y meini prawf hyn, byddant eisoes yn cyflawni rôl bwysig yn y broses llunio rhestr fer.

Fodd bynnag, bydd meini prawf ychwanegol ar gyfer llunio rhestr fer mewn rhai sefyllfaoedd. Fe allech ofyn i bobl â dementia ystyried pwysigrwydd cymharol y meini prawf hyn, ond gwnewch yn siwr eich bod chi'n eu darparu mewn iaith eglur, heb jargon.

“

'Fe ofynnon ni i Lynda [rheolwr y ganolfan Forget Me Not] a'i thîm greu rhestr fer i ni, yn seiliedig ar beth ddywedon ni yr oedden ni ei eisiau.'  
Grŵp Forget Me Not, Swindon

”

## Helpu pobl i feddwl am gwestiynau ar gyfer y cyfweliad

Mewn amgylchiadau lle mae'n anodd cynnwys pobl â dementia yn uniongyrchol ar banel cyfweld, fe allai fod yn briodol gofyn iddynt feddwl am gwestiynau y gallai aelodau'r panel eu gofyn. Ystyriwch ofyn i bobl â dementia:

- Beth maen nhw eisiau ei wybod am aelodau newydd o staff
- Beth yw'r rhinweddau pwysicaf ar gyfer y swydd yn eu barn nhw – a sut y gallai rhywun roi gwybod i chi amdanynt
- Sôn am adegau perthnasol yn eu profiad yr hoffent eu harchwilio.

Dyma beth ddywedodd aelodau o'r grŵp Forget Me Not yn Swindon am eu cyfraniadau at gwestiynau ar gyfer cyfweliad:

Roedd gennym ni i gyd gwestiwn yr oedden ni wedi gweithio arno'n flaenorol ac wedi ei ysgrifennu ar ddarn o bapur. Rhaid cyfaddef, nid mater syml oedd cofio pa boced yr oedd y darn papur ynddo!

Roedd y cwestiynau a ofynnnon ni yn cynnwys:

- Beth ydych chi'n credu sy'n gwneud cynorthwy-ydd da i rywun â dementia?
- Petai gennych chi ddementia, sut byddech chi eisiau i'r bobl o'ch amgylch ymddwyn?
- A allwch chi ddweud wrthym ni am adeg pan wnaethoch chi llanastr o bethau – a beth ddysgoch chi? (Mae'n debyg fod rhai pobl yn berffaith)
- Dywedwch wrthym ni pan oedd angen cymorth arnoch chi a beth oedd wedi eich helpu chi fwyaf?
- Beth yw eich hobiau a'ch diddordebau?

## Cynorthwyo pobl â dementia ar baneli cyfweld

Mae llawer o bobl â dementia yn gallu cymryd rhan mewn paneli cyfweld ac yn fodlon gwneud hynny, er y gallai fod angen mwy o gymorth ar rai.

Bydd unrhyw un sydd wedi bod yn aelod o banel cyfweld yn gwybod pa mor flinedig mae'n gallu bod. Dyma rai ffyrdd y gallwn wneud y broses yn haws i bobl â dementia:

- Neilltuwch ddigon o amser ar gyfer egwyl.
- Paratowch y cwestiwn/cwestiynau sydd i'w gofyn gan yr unigolyn â dementia o flaen llaw a'i brintio ar bapur.
- Anogwch yr unigolyn â dementia i ofyn ei gwestiwn os oes angen.
- Os yw'n ormod i'r unigolyn eistedd trwy gyfweiliad cyfan, gofynnwch iddo ofyn ei gwestiwn ar ddechrau neu ddiwedd y sesiwn, ac yna mynd allan. Ar yr adeg hon, fe allai fod yn ddefnyddiol trefnu bod aelod o'r tîm yn gofyn iddo beth oedd ei farn am ymateb yr ymgeisydd.
- Tynnwch lun o ymgeiswyr, gyda'u caniatâd. Gall hyn fod yn ffordd ddefnyddiol o brocio'r cof pan fydd angen gwneud penderfyniad ar ddiwedd y dydd.

### **Ffyrdd eraill o gynnwys pobl**

Ni fydd yn bosibl nac yn ddymunol pob amser i rywun â dementia gymryd rhan mewn diwrnod cyfan o gyfweiliadau, ond mae ffyrdd eraill o gynnwys pobl ar y diwrnod.

Dyma beth ddywedodd aelodau o grŵp Forget Me Not oedd am gymryd rhan mewn proses recriwtio:

'Roedden ni eisiau i'r ymgeiswyr gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda ni oherwydd 'dydych chi ddim bob amser yn gallu dweud llawer am unigolyn o'i gyfweiliad yn unig.

Yn yr ystafell gelf, roedden ni eisiau gweld a oedd pobl yn fodlon 'rhoi cynnig arni' a chael sbort, a pheidio â chymryd eu hunain yn rhy o ddifrif, fel y gallem ni ddarganfod pa mor awyddus oedden nhw i gael gwybod mwy amdanom ni.

Yn y gegin, helpodd pobl ni i wneud sgons. Roedden ni eisiau canfod a allai pobl rannu cyfarwyddiadau'n bytiau byr a'n cynorthwyo ni i'w gwneud nhw ein hunain heb gymryd drosodd.

Yn y tŷ gwydr, helpodd pobl ni i blannu rhai bylbiau a blodau. Roedden ni eisiau gweld oeddynt yn fodlon torchi llewys a chael eu dwylo'n fudr (yn llythrennol). Nid oedd pawb wedi ymateb i'r her!

Cwis yn yr ystafell wydr: roedden ni eisiau gweld a allai pobl gychwyn pethau heb fod angen dweud wrthyn nhw beth i'w wneud ac, unwaith eto, heb gymryd drosodd (gormod). Roedden ni eisiau gweld a allai pobl feddwl ar eu traed a defnyddio eu menter.'

Crëwyd y canllaw hwn  
gyda chymorth pobl  
â dementia o Fwrdd  
Seinio Sefydliad Joseph  
Rowntree, Clwb Doodle  
Lewisham, y Forget Me  
Nots (Caint) a'r grŵp  
Forget Me Not, Swindon

Nod canllawiau **DEEP** yw cynorthwyo pobl â dementia i gymryd rhan. Mae rhai wedi'u bwriadu ar gyfer grwpiau **DEEP**, tra bod eraill wedi'u bwriadu ar gyfer sefydliadau sydd eisiau gweithio'n dda gyda phobl â dementia. Maen nhw i gyd wedi cael eu cydgyhyrchu gyda phobl â dementia a byddan nhw'n cael eu diweddarau'n rheolaidd drwy gydol y prosiect. Croesawir awgrymiadau ar gyfer canllawiau newydd – **cysylltwch â Rachael Litherland yn Innovations in Dementia: e-bost [rachael@myid.org.uk](mailto:rachael@myid.org.uk) neu ffôn 01392 420076**